Please find below a link to Dolen where you will find a range of subject specific GCSE to AS Level transition booklets which have been put together by colleagues across the four consortia regions.

Year 11: GCSE to AS Level Transition work:
https://thinqi.erw-rhwyd.cymru/Repository/resource/0a468ca6-4ad8-48bc-ab79-3bae6f063155/en

These booklets have also been uploaded to the ERW Post-16 Leaders network on Hwb: later in May there will also be links to the booklets on the Distance Learning platform on Hwb.

***The most important thing for this group of learners is that they are able to Stay Safe and Stay Learning**.*

The subject specific booklets have been produced in order to support learners to bridge the gap between GCSE and AS level: the move from GCSE to A level can be quite a daunting one, even more so in the current situation with such a long gap between now and the start of the A level course and a lack of opportunity for A level taster sessions.

These booklets will provide learners with some of the tools needed to become more independent in their studies and allow them to prepare for the transition to A level study through bridging materials, additional reading and independent research which will in turn mean that they will gain the most from their A level course. Preparation, additional reading and research can all support this new level of independence and challenge and equip them with the skills needed to be resilient learners. Providing bridging material provides learners with information so that they know what to expect which could minimise uncertainty and stress.

The tasks should be viewed as an opportunity to further develop independence, knowledge and skills within that subject and to prepare themselves for the challenges ahead. They are not intended as assessment opportunities or to increase teacher workload. Teachers may wish to use the booklets as they have been designed or may choose to adapt to suit the learners in their own school. It is entirely up to individual schools and teachers if and how they choose to use the materials provided.

The subject specific booklets include a range of activities to include:

- *Suggested reading*
- *A suggested list of films to watch with have a link to the subject (albeit tenuous in some cases!)*
- *Independent research tasks and TED Talks that develop an interest beyond the curriculum*
- *Tasks which build knowledge and skills linked to the AS syllabus*
- *Preparation for the AS course*

Isod mae linc i Dolen lle byddwch yn dod o hyd i ystod o lyfrynnau trosglwyddo TGAU i Lefel UG pwnc-benodol sydd wedi'u llunio gan gydweithwyr ar draws y pedwar consortia.

Blwyddyn 11: Gwaith Pontio TGAU i Safon UG:
https://thinqi.erw-rhwyd.cymru/Repository/resource/0a468ca6-4ad8-48bc-ab79-3bae6f0631555

Mae'r llyfrynnau hyn hefyd wedi'u huwchlwytho i rwydwaith Arweinwyr Ôl-16 ERW ar Hwb: yn ddiweddarach ym mis Mai bydd dolenni hefyd i'r llyfrynnau ar y platfform Dysgu o Bell ar Hwb.

Y peth pwysicaf i'r grŵp hwn o ddysgwyr yw eu bod yn gallu Cadw'n Ddiogel a Pharhau i Ddysgu.

Cynhyrchwyd y llyfrynnau pwnc benodol hyn i gefnogi'r dysgwyr i bontio'r bwlch rhwng TGAU a Safon Uwch: gall symud o TGAU i Safon Uwch fod yn hynod anodd, a bydd yn fwy anodd byth yn y sefyllfa bresennol gyda bwlch mor hir rhwng 'nawr a dechrau'r cwrs Safon Uwch, a heb unrhyw gyfleoedd i gynnal sesiynau blasu Safon Uwch.

Bydd y llyfrynnau hyn yn darparu peth o'r offer y bydd ar y dysgwyr eu hangen i fod yn annibynnol wrth astudio, ac yn eu galluogi i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio i astudio Safon Uwch, a hynny trwy gyfrwng deunyddiau pontio, deunydd darllen ychwanegol, ac ymchwil annibynnol *a fydd, yn ei dro, yn golygu y byddant yn cael y gorau o'u cwrs Safon Uwch. Gall paratoi, deunydd darllen ychwanegol, ac ymchwil oll gefnogi'r lefel newydd hon o annibyniaeth a her, a'u harfogi â'r sgiliau angenrheidiol i fod yn ddysgwyr cydnerth. Mae deunyddiau pontio yn rhoi gwybodaeth i'r dysgwyr er mwyn iddynt wybod beth i'w ddisgwyl, a gallai hynny leihau ansicrwydd a straen.*

Dylid ystyried y tasgau yn gyfle i ddatblygu rhagor ar eu hannibyniaeth, eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y pwnc hwnnw, ac i'w paratoi eu hunain ar gyfer yr heriau sydd i ddod. Ni fwriedir iddynt fod yn gyfleoedd asesu nac i gynyddu llwyth gwaith athrawon. Efallai y bydd yr athrawon yn dymuno defnyddio'r llyfrynnau fel y maent wedi'u dylunio, neu efallai y byddant yn dewis eu haddasu ar gyfer y dysgwyr yn eu hysgol eu hunain. Gall yr ysgolion a'r athrawon unigol ddewis a fyddant yn defnyddio'r deunyddiau a ddarperir, yn ogystal â sut y byddant yn eu defnyddio.

Mae'r llyfrynnau pwnc benodol yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau i gynnwys:

- *Awgrymiadau ar gyfer darllen*
- *Rhestr o ffilmiau posibl y gellid eu gwylio, sydd â chysylltiad â'r pwnc (er bod y cysylltiad yn un tenau weithiau!)*
- *Tasgau ymchwil annibynnol a TED Talks sy'n meithrin diddordeb y tu hwnt i'r cwricwlwm*
- *Tasgau sy'n adeiladu ar yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â'r maes llafur UG*
- *Paratoadau ar gyfer y cwrs UG*